$4
Awst 2008

# Llais yr Andes

Newyddion Cymraeg Trevelin ac Esquel

## Digwyddiadau y mis hwn

* **Dosbarth Wlpan newydd yn Esquel** - bob nos Lun a Iau am 8.00yh. Gweler Tud 1 am fwy o fanylion

* **Diwrnod Hyfforddiant i Diwtoriaid yr Andes -** Dydd Gwener 15fed Awst am 4.00yp Canolfan Esquel

* **Ffair Bwyd (*Feria de platos*)** Dydd Sadwrn, 16eg Awst am hanner dydd. Gweler Tud 4 am fwy o fanylion

* **Ffilm a Phaned** Dydd Gwener 22ain Awst yn y Ganolfan yn Esquel am 4.00yp. Gweler Tud 4 am fwy o fanylion

## Hanes ein pobl ni yng Nghaerdydd

Croeso cynnes i Jessica Jones sy newydd gyrraedd yn ôl o Gymru. Cafodd Jessica, sy'n dod o Drevelin, ei dewis ar gyfer ysgoloriaeth yn gynharach eleni. Roedd hyn yn golygu iddi dderbyn dau fis o hyfforddiant fel athrawes plant cynradd yn Ysgol Gynradd Gymraeg Llanbedr Pont Steffan ac yna mynd ymlaen i Gaerdydd i wneud y Cwrs Meistroli gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd. Dyn ni'n falch o gael Jessica yn ôl gyda ni yn dysgu plant Ysgol Gymraeg Trevelin - dyn ni wedi gweld ei choll-ed yn ei habsenoldeb. Deallaf hefyd i Enrique Borda Green, Glenda Powell a Diana Jenkins orffen y rhan gyntaf o'u cwrs sef y Pellach a chychwyn ar yr ail ran - y Cwrs Uwch. Mae modd ddilyn tipyn o'u hynt a'u helynt yng Nghymru trwy ymweld â blog Glenda ar www.glendapowell.blogspot.com




**Enrique Borda Green, Jessica Jones, Glenda Powell a Diana Jenkins yng Nghaerdydd**

*(Gweler Tud 4 am fwy o newyddion am bobl yr Andes yng Nghymru.)*

### Para pronunciar la letra "ll" del idioma galés, apoye su lengua en la parte posterior du sus dientes incisivos y .... sople fuerte!!!!



Mae Dosbarth Wlpan newydd wedi dechrau yn Esquel. Mae'r gwersi dwywaith yr wythnos bob nos Lun a nos Iau am 8.00yh. Dyma gyfle i ddechrau o'r dechrau ar gyfer y rhai roedd yn methu dod ar ddechrau'r flwyddyn. Mae fe'n hefyd yn addas i'r rhai sy wedi dechrau'r Wlpan yn y gorffennol ond heb orffen y cwrs am ryw reswm. Er bod y gwersi wedi dechrau ers dechrau Awst mae'n dal yn bosibl i bobl ymuno yn ystod weddill y mis hwn.

Os ydych chi am gyfrannu stori, pwt o newyddion, llun neu reseit i 'Llais yr Andes' cysylltwch â Gill Stephen ar 02945 450 235 neu e-bostio gwenallt86@hotmail.com

## Noson Gŵyl y Glaniad yng Nghanolfan Esquel

Cafwyd noson arbennig o dda yn dathlu Gŵyl y Glaniad yma yn y Ganolfan yn Esquel ar nos Sul 27ain o Orffennaf. Moch bach a chywion ieir wedi'u rhostio, sawl math o salad, Pionono, roliau bara cynnes ffres a digon o win da. A hynny cyn y deisen ddu a hufen iâ! Cynhaliwyd raffl ac ocsiwn llwyddiannus i godi arian at y Gymdeithas Gymraeg. Roedd pawb yn mwynhau amryw o berfformiad gan wahanol aelodau o'r gymuned - sgets neu ganu a pherfformiad gan Gôr Esquel - sy bellach wrthi'n ymarfer o ddifri ar gyfer Eisteddfod Trelew wrth gwrs. Gorffennwyd y noson trwy sesiwn ganu hwyliog a braf dan arweiniad Elda Griffiths de Gomez.



**Yn y llun mae Diego Austin yn dangos ei synnwyr fasiwn unigryw iawn!! Llwyddodd Diego i ennill y wasgod trwy wneud y cynnig uchaf yn yr ocsiwn. Diolch yn fawr iddo. Mae'n edrych yn dda iawn arno hefyd - er dwi i ddim yn hollol siŵr am y tei yna gyda fe Diego..........**

## LOCRO LAURA NIKLITSCHEK

**Ffa, Pys a Chorbys *(Legumbres)***
600gr India Corn gwyn *(Maíz Pisado)*
1½ KG Ffa sych *(Porotos)*
1 kg Pys Llygod *(Garbanzos)*
**Cig *(Carnes)***
1kg Croen Porc *(Cueros de Cerdo)*
½ Cyw iâr *(Pollo)*
1 kg Selsig Chorizo (*Chorizos)*
400gr Panceta
2kg 'Sgert' o gig eidion *(Falda o Vacío)*
**Llysiau *(Verduras)***
3 kg Tatws melys *(Batata)*
3 kg Pwmpen werdd *(Zapallo)*
Halen *(Sal)*
Orégao

## Y Gornel Reseitiau

Os hoffech chi gyfrannu reseit i 'Llais yr Andes' cysylltwch â Gill Stephen ar 02945 450 235 neu e-bostio gwenallt86@hotmail.com

### Dathlu Gŵyl y Glaniad ym Mendoza

Eleni cafodd y Glaniad ei gofio yn Ninas Mendoza hefyd. Rhai o blant yr Andes sydd yn cadw'r traddodiad i fynd trwy gynnal Te Parti bach Cymreig i'w teuluoedd a ffrindiau yna, gyda gemau geiriau Cymraeg i'w ddilyn, (Croesair Cymraeg a '*Sopa Letras*'). Braf iawn.

**Dull, cam wrth gam *(Instrucciones, pasó a pasó)***
Rhowch yr holl ffa, pys a chorbys i fwydo mewn twr oer dros nos. Wedyn eu berwi gyda'i gilydd am tua awr a hanner
*Se dejan remojando las legumbre toda la noche.Se hierve todo junto aproximadamente 1.30h.*
Ychwanegwch y cigoedd i gyd a choginio yn ara' deg am tua hanner awr.
*Luego se agregan las carnes tozadas*
Ar ôl hanner awr ychwanegwch y llysiau, halen ac oregano a mud ferwi'r cyfan nes bod yr holl gynhwysion wedi meddalu a chogio'n dda.
*Media hora después se agregan las verduras, sâl y orégano y se sigue hiervien de hasta que todo se cocine y se desarme.*
Mae'n hefyd posibl i ddefnyddio traed a chynffon moch os oes chi eisiau
*También se pueden usar rabo y pata de chancho con las carnes.*

## Amser cyffrous i Grahame Davies a'i deulu



Yn ôl ym mis Ebrill ddaeth y bardd, llenor a beirniad llenyddol Grahame Davies a'i deulu i ymweld â ni yma yn yr Andes. Yn ystod yr ymweliad gwnaeth Dr Davies gynnal dwy sesiwn i ni gyda darlleniadau o'i waith. Clywsom yn ddiweddar i Grahame ddechrau ar swydd newydd o fewn y BBC, yn rheoli prosiect BBC Local / Lleol o hyn ymlaen, tra'n parhau i olygu gwasanaethau ar-lein lleol BBC Cymru. Dywedodd Grahame ei fod yn falch iawn o fod wedi dechrau ar swydd newydd a fydd yn paratoi ar gyfer beth fydd yr ehangiad mwyaf mewn darpariaeth Gymraeg ers lansio S4C. "Dwi'n falch i fod yn rhan o gynllun a fydd yn ehangu parthau'r Gymraeg hyd yn oed yn fwy. Bydd hanner y gwasanaeth yn Saesneg wrth gwrs, ond yr ochr Gymraeg yw'r elfen fwyaf arloesol. Mae'n dipyn o fraint" Nid Grahame yw'r unig un o deulu Davies sy'n cael amser cyffrous a llwyddiannus ar hyn o bryd ychwaith. Mae ei ferch ifancach, Alaw, wedi cael rhan yn y sioe gerddorol lwyddiannus Chitty, Chitty, Bang Bang yng Nghanolfan y Mileniwm yng Nghaerdydd! Yn gynharach eleni, fe aeth cannoedd o bobol ifanc Cymru i'r ganolfan i gymryd rhan yn y clyweliadau a gobaith pob un a aeth yna oedd dal llygad y cyfarwyddwr a chael cyfle i serennu ar y llwyfan. Ac un o'r rhai a lwyddodd i blesio'r beirniaid oedd Alaw Davies. Ac am yn ail a phedair merch arall mi fydd hi'n actio un o'r prif rannau - Jemima . Mae'r stori'n adrodd hanes dyfeisiwr o'r enw Caractacus Potts, sy'n adeiladu car sy'n hedfan. Ac mae yna dipyn o Gymry eraill yn y cast hefyd gan gynnwys y canwr enwog o Fôn Aled Jones. Mae'r sioe eisoes wedi agor a thros yr 8 wythnos nesaf mae'r car bach hudol yn sicr o ddenu miloedd i'w weld ym Mae Caerdydd. Dywedodd Grahame ar ran ei deulu "Hoffwn ddanfon ein cyfarchion, ein diolchiadau a'n dymuniadau gorau ymlaen at bawb wnaethon ni gwrdd â nhw, ac a roddodd gymaint o groeso inni pan oedden ni yn yr Andes".



**Alaw Davies**

### Eleri Hughes

Mae'n siŵr bydd llawer ohonoch hefyd yn cofio Eleri Hughes, un o'r tri athro a ddaeth i'r Wladfa yn ystod blwyddyn gyntaf y prosiect. Mae Eleri bellach yn gweithio yng Nghanolfan Bedwyr (Prifysgol Bangor) fel un o'r Prif Diwtoriaid. Danfonodd Eleri ei chyfarchion atom ar ôl derbyn copi o 'Lais yr Andes' yn ddiweddar. Roedd ei e-bost yn dymuno "Pob dymuniad da a chofion at bawb yn yr Andes!"



**Rhobert ger Cofeb Gwynfor Evans (Llangadog)**

## Ymweliad Rhobert ap Steffan

Yn ystod mis Hydref 2008 bydd Rhobert ap Steffan yn mynd ar daith trwy'r Andes yn Ne Patagonia i godi arian ar gyfer Mencap Cymru - elusen sy'n helpu gwneud gwahaniaeth i fywydau oedolion a phlant ag anableddau dysgu. Bydd rhaid iddo gerdded tua 12 milltir y dydd am ryw wythnos dros diroedd garw ac anwastad**!** Fe fydd yn cyrraedd ein hardal ni yn ystod mis Tachwedd ar ôl ymweld ag Eisteddfod Trelew, ac yn garedig iawn wedi cytuno i ddod i siarad â ni ynglŷn â'r daith a'i brofiadau. Mae'n bosibl y bydd rhai ohonoch yn ei gofio. Mae fe wedi ymweld â r Andes o'r blaen – er i hynny fod sbel fach yn ôl! Dywedodd Rhobert "Arhosais efo'r diweddar Freddy Green a'i deulu yn 1970. Rwy'n edrych ymlaen at y daith dros yr Andes ac i weld y Wladfa unwaith eto ar ôl 38 mlynedd!"




www.rhobertmencap.blogspot.com

**Llongyfarchiadau Mawr i Ysgol yr Hendre**
Yn gyhoeddus ar deledu cenedlaethol yr Ariannin cyhoeddodd Llywodraethwr Talaith Chubut, Mario Das Neves, ei fod yn rhoi nawdd i Ysgol yr Hendre, Trelew er mwyn adeiladu'r ysgol. Mewn seremoni i ail-agor Pont yr Hendre, Trelew prynhawn Gŵyl y Glaniad, arwyddwyd cytundeb i godi adeilad newydd ar gyfer Ysgol yr Hendre. Bydd y nawdd yn estyn i o leiaf $500,000 a disgwyliwn yn awr i wybod pryd bydd y gwaith yn dechrau. Dywedodd Catrin Morris de Junyent ar ran yr ysgol "Mae'r newyddion yn syfrdanol ac yn destun dathlu mawr i ni i gyd - yn rhieni, yn staff ac yn ddisgyblion, ac yn gwireddu breuddwyd."

## Siarad â phobl yr Andes ar Faes Eisteddfod Caerdydd trwy'r We

Ar ddydd Mercher 6 o Awst am 10yb (2.00yh yng Nghymru), gawson ni gysylltiad camera gwe rhwng y Ganolfan yn Esquel a Phabell y Dysgwyr (Maes D) ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol. Roedd y linc yma yn rhan o'n prosiect ar y cyd â'r Brifysgol a'r Eisteddfod, oedd hefyd yn gynnwys arddangosfa o luniau o'n hardal. Cawson ni siarad â'r rhai sydd yn mynychu'r Cwrs Haf yng Nghaerdydd ar hyn o bryd, sef Diana Jenkins, Enrique Borda Green a Glenda Powell a hefyd gyda Rini Griffiths a oedd ar y Maes ac oedd wedi mynd draw i ymweld â Maes D er mwyn cael sgwrs a ni. Roedd yn braf iawn cael siarad â nhw i gyd. Dyn ni'n edrych ymlaen nawr at dderbyn yr arddangosfa lluniau yma ar ôl i Eisteddfod Caerdydd orffen. Fe fydd hi'n mynd i'r Eisteddfod yn Nhrelew (y Gaiman) yn gyntaf ac wedyn dod ymlaen i Drevelin ac Esquel yn yr Andes.

**LLONGYFARCHIADAU MAWR IAWN**

**hefyd i ESTHER HUGHES (Esquel) a enillodd yr ail wobr ar y cyd gyda Luned Roberts de González (Y Gaiman) yng Nghystadleuaeth y Wladfa yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghymru.** Gweneira Davies de González de Quevedo (Trelew) a gipiodd y wobr gyntaf a ddaeth Iris Spannaus (Beunos Aires) ac Iola Evans (Trelew) yn gydradd drydedd. Y testun oedd: Teithio yn y Wladfa **Gellir darllen y gwaith buddugol yng Nghyfansoddiadau'r Eisteddfod**

Bydd **Ffair Bwyd (*Feria de Platos*)** yn y Ganolfan yn Esquel ar ddydd **Sadwrn 16eg Awst am hanner dydd** i godi arian at daith Côr Esquel i Gordoba. Bydd y daith yma'n gyfle da i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'r Gymuned Gymraeg mewn ardal arall o'r Ariannin. Fe fydd hefyd yn brofiad da i'r Côr sydd wrthi'n ymarfer yn galed ar hyn o bryd ar gyfer cystadlu yn Eisteddfod Trelew.

## Ffilm a Phaned - Y Ganolfan Esquel

Yr ydym newydd dderbyn cyflenwad o gryno ddisgiau newydd o Gymru. Yn eu plith mae un yn dangos "Deg o'r Adeiladau Pwysicaf yng Nghymru". Mae'n dangos lluniau o Abaty Tyndyrn, Eglwys Gadeiriol Tŷ Ddewi, Yr Hen Goleg, Brifysgol Cymru Aberystwyth, Abaty Ystrad Fflur, Castell Caernarfon, Y Bont Ddŵr Froncysyllte, Senedd-dy Machynlleth, Y Bont Transporter Casnewydd, Cerrig Pentre Ifan a'r Safle Haearn a Glo Treftadaeth y Byd Blaenafon. Mae sylwebaeth gan yr hanesydd Dr John Davies. Mae'n edrych yn ddiddorol dros ben. Bydd cyfle i'w gweld yn y Ganolfan yn Esquel ar **Ddydd Gwener 22ain o Awst am 4.00yp.** Dewch i ymlacio gyda phaned a dysgu tipyn o hanes Cymru.



Os ydych chi am gyfrannu stori, pwt o newyddion, llun neu reseit i 'Llais yr Andes' cysylltwch â Gill Stephen ar 02945 450 235 neu e-bostio gwenallt86@hotmail.com

Menter PATAGONIA

Cydnabyddir nawdd ariannol Menter Patagonia i'r rhifyn hwn